

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 5ed o Dachwedd 2020 drwy Zoom yn brydlon am 8:00 y.h.

Fe anfonir linc i ymuno cyn y cyfarfod.

Materion angen sylw oherwydd na ellir cynnal cyfarfod yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 1af o Hydref 2020.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Hydref 2020 – (bydd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn y cyfarfod).
4. Datgan buddiant personol.

5. Materion gan Cyngor Gwynedd

6. Gorchymyn Cyngor Gwynedd (cau'r ffordd Dosbarth III gyferbyn â Chanolfan Ailgylchu Rhwngddwryd a Fferm Cefn Uchaf, Garndolbenmaen) (Gwaharddiad trafniadaeth trwodd dros dro) 2020 – er mwyn galluogi Peirianydd BT Openreach wneud gwaith rhwydwaith newydd o'r 01.11.2020, ni fydd yn parhau am fwy na 4 niwrnod.

7. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned - dim un newydd

a) Cae Bodlondeb, ger Ael y Bryn, Chwilog - sefyllfa draenio. Derbyniwyd gwybodaeth fod y Cynghorydd Aled Evans mewn cysylltiad hefo'r Adran Cynllunio ynglyn â'r mater, ac yn disgwyl sylwadau ganddynt.

b) Plas Gwynfryn, Llanystumdwy - ymgynghoriad - y Clerc wedi derbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Aled Evans, ac oherwydd na dderbyniodd y Cyngor Cymuned y wybodaeth yn uniongyrchol gan gwmni Partington Associates, cytunwyd yn ein cyfarfod diwethaf y byddai y Cynghorydd Aled Evans yn anfon ateb atynt. Dywedodd ei fod yn erbyn y datblygiad, a'i fod yn synnu na anfonwyd y manylion at y Cyngor Cymuned.

8. Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol:-

- Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid (rhan 4.6 a paragraff 6.2.1)
- Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu.

Angen ymateb rhwng 15.10.2020 – 27.11.2020.

9. Rheilffordd Afonwen i Fangor

Derbyniwyd ebost gan Mr Elfed Wyn Jones, Trawslink Cymru yn gwahodd aelodau o'r cyngor i gyfarfod 'Zoom' er mwyn trafod eu hymgyrch i ail agor y rheilffordd o Afonwen i Fangor ar y 29.10.2020, lle cafwyd gwybodaeth am ei cynlluniau.

10. Bwrdd Rheoli O Ddrws i Ddrws – llythyr ganddynt yn gofyn am gynrychiolydd i ymuno â'r Bwrdd Rheoli a chyfrannu at lywio gwaith y cwmni.

Materion yn y gymuned.

11. Llanystumdwy

a) Pont Llanystumdwy - clirio tir y Cyngor yn Maenywern - Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ateb hefo cael prisiau i dorri'r brigau sydd yn hongian dros y clawdd ar hyd y lon o'r bont am y bedd. Gobeithio y bydd wedi ei derbyn cyn y cyfarfod.

b) Draen ger tro Tŷ Newydd - mae y 'tarmac' a'r draen uwchlaw tro Tŷ Newydd, wedi codi gan fod y draen wedi blocio efo dail. Nodwyd fod gwaith wedi cael ei wneud ar y draen yma flynyddoedd yn ol ac wedi datrys y broblem yn rhannol. Ond oherwydd dail a chyfaint y dwr, mae'r draen wedi blocio ac o'r herwydd y grid a gwyneb y lon o gwmpas y draen wedi codi ac yn beryglus. Y Clerc wedi cysylltu hefo'r Adran Priffyrdd.

12. Rhoslan/Ynys

13. Chwilog

a) Ffordd rhwng Chwilog ac Afonwen - Y Clerc wedi derbyn ateb gan Mr Dafydd Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd, yn egluro nad oedd Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddianus i ddenu arian grant gan Llywodraeth Cymru eleni ar gyfer datblygu'r cynllun.

Eglurodd fod Cyngor Gwynedd wedi ymgeisio am arian grant ar gyfer y prosiect penodol yma drwy'r ffynhonnell '*Siwrne Saff yn y Gymuned*', oherwydd mai hwn yw'r unig ffynhonnell fyddai'n 'ffitio'r' maen prawf ar gyfer y math yma o gynllun.

Mae wedi cytuno bod swyddog o'r Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau yn barod i fynychu cyfarfod o'r Cyngor Cymuned drwy 'Zoom' i egluro sut mae'r broses o ddenu am grant gan y Llywodraeth yn cael ei wneud, ac i ateb unrhyw gwestiynau am y broses neu'r cynllun ei hun. **Y Clerc yn disgwyl cadarnhâd o'r dyddiad, mae'n bosib mai am 8:00 ar nos Iau 12fed o Dachwedd 2020 y bydd yn cael ei gynnal.**

14. Pencaenewydd/Sardis

Arwydd 'Dim baw cwn' yn y pentref, oherwydd fod problem yno. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod arwydd yno.

15. Llangybi

a) Arwydd bach 30 m.y.a rhwng Capel Helyg a Groeslon 'Refail, Llangybi wedi ei ddymchwel. Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.

b) Ciosc - un gwydr gwaelod wedi malu yno - y Clerc heb dderbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd, ond mae'r panel gwydr wedi cael ei drwsio erbyn hyn.

c) Ymholiad os oes bwriad gan Cyngor Gwynedd i orffen y gwaith ddechreuwyd ar y llwybr o Ffynnon Gybi i Bont y Merched yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol? Y Clerc am wneud ymholiadau.

16. **Enwau lleol** - ystyried gosod arwyddion o enwau lleol yn y gymuned, sef enwau pontydd, afonydd, enw cynhenid ambell groesffordd, a'i gwneud yn weledol i bawb ei gwybod a'i defnyddio i'r dyfodol. Y Clerc wedi gofyn wrth y Cynghorwyr i gasglu enwau yn ei ardaloedd unigol, ac i'w anfon ati cyn y cyfarfod. **Angen trafod y camau nesaf.**

Materion Ariannol

17. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Bydd y Clerc yn anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 05.11.2020.

18. **Archwiliad Allanol Cyfrifon 2019-20.**

Y Clerc wedi derbyn ebost gan yr Archwilwyr Allanol ar 07.10.2020 yn holi am ddau fater, ac mae'r Clerc wedi ymateb ar 13.10.2020, drwy ddweud yr isod (ond nid ydynt wedi cysylltu nol wedyn):-

Beth yw'r pwynt sydd heb ei ddatrys?	Beth sydd ei angen i ddatrys y mater?	Pam mae hyn yn angenrheidiol?
Rydych wedi ail-ddatgan blwch 12 yn y flwyddyn flaenorol o £56,877 i £60,865.	Mae angen i chi esbonio pam.	Rydyn ni'n disgwyl i'r ffigurau cymharol gytuno â'r rhai gafodd eu harchwilio yn y flwyddyn flaenorol. ATEB: Fe ddylai'r ffigwr am y flwyddyn flaenorol barhau i fod yn £56,877 ym mlwch 12. Mae'r ffigwr wedi codi i £60,865 ar 31.03.2020 oherwydd ein bod wedi prynu 3 mainc a 4 hysbysfwrdd rhwng 01.04.2019 – 31.03.2020.
Fe ofynnwn i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos fod y materion a godwyd yn 2017/18 wedi eu cwblhau. Dydych chi ddim wedi darparu'r wybodaeth honno.	Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos fod y materion canlynol wedi cael eu cwblhau/eu gweithredu. Mae angen i chi ddarparu dadansoddiad o'r taliadau gafodd eu gwneud dan bwerau gwariant A137.	Mae angen y dystiolaeth hon arnom eleni. ATEB: Atodaf restr arwahan o'r taliadau a wnaed o dan 'pwerau cyfreithiol gwariant A137', ar gyfer blwyddyn yn diweddu 31.03.2019 (£8.12 y person) a 31.03.2020.

19. **Elusen William Ellis** – angen rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd 2020.

20. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor- angen ei roi yn rhifyn mis Tachwedd, a Rhagfyr o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfwrddau gyda dyddiad cau 15ed o Ionawr 2021.

21. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 05.11.2020:

Cyflwg mis Hydref 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS :- £
Cyflwg sylfaenol y Clerc, Hydref 2020 35 awr x £10.83 = £379.05	379.05 - Llai treth £76 = £303.05	<u>303.05</u>	<u>303.05</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Hydref 2020	380.00 x 20% = £76.00	<u>76.00</u>	<u>76.00</u>
Costau'r Clerc Hydref 2020	£16.65	<u>16.65</u>	<u>16.65</u>

Bydd angen penderfynu os mai ar y nos Iau 03.12.2020, fydd y cyfarfod nesaf.

Mae hefyd angen cadarnhau dyddiad i gynnal cyfarfod busnes/cyllid, efallai 8:45 nos Iau 12.11.2020, yn dilyn cyfarfod trafod llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.